

Prosiect Pobl, Pyllau a Dŵr Adroddiad Cryno



Naomi Ewald, Laura Quinlan, Pete Case, Francesca Dunn, Anne Heathcote,
Hannah Shaw, Hannah Worker, Penny Williams a Jeremy Biggs



Diolchiadau

Rydym ar ben ein digon gyda'r brwdfrydedd a chefnogaeth y cannoedd o wirfoddolwyr sydd wedi rhoi o'u hamser i gefnogi prosiect Pobl, Pyllau a Dŵr – yn ymweld yn blygeiniol â safleoedd, yn gwneud arolygon canol nos, dringo mynyddoedd a mentro i brysgwydd trwchus; does dim diwedd wedi bod ar y drafferth y buont yn barod i fynd iddo, i ganfod a gwarchod y rhywogaethau a'r mannau maen nhw meddwl y byd ohonynt.

Diolch yn arbennig i'r rhai sy'n ein cyllido:

Cronfa Dreftadaeth y Loteri
Beryl Thomas Animal Welfare Trust
Grŵp BGL
Defra
Garfield Weston Foundation
Natural England
Cyfoeth Naturiol Cymru
New Forest Catchment Partnership
Thames Water
Trust for Oxfordshire's Environment
ValPak
Llywodraeth Cymru
Yorkshire County Council



Cwblhawyd prosiectau PondNet, Dŵr Glân i Fywyd Gwyllt a Phyllau Blaenllaw, mewn partneriaeth â grwpiau rhywogaethau, sefydliadau a rheolwyr tir canlynol:

Amphibian and Reptile Groups of the UK
Aquatic Coleopterists Conservation Trust
Aquatic Plant Taxonomic Group
Amphibian and Reptile Conservation
Association of Local Environmental Record Centres
Biological Records Centre
Blackpool Council
Stad Bodorgan
Botanical Society of Britain and Ireland
Bradley Green Common Group
British Pteridological Society
Buckinghamshire County Council
BugLife
Chailey Commons Society
Cheshire East Council
City of London Corporation
Conchological Society
Defence Infrastructure Organisation
Dragonfly Society
Earth Trust
Earthwatch
Asiantaeth yr Amgylchedd
Escrick Park Estate
Cyngor Sir y Fflint
Y Comisiwn Coedwigaeth
Friends of Rawcliffe Meadow
Froglife
Gloucestershire County Council
Groundworks
Natural England
Cyfoeth Naturiol Cymru
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
RSPB
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Species Recovery Trust
Stow Bedon Fuel Allotment Society
Stow-cum-Quy Trust
Thames Water
Ymddiriedolaethau Byd Natur
Yorkshire Water

Adroddiad Cryno Pobl,
Pyllau a Dŵr
2015-2018



Uchod: Y Fforest Newydd – un o safleoedd pwysicaf bywyd gwyllt dŵr croyw yng Nghymru a Lloegr
Llun y clawr: Safle Pwll Blaenllaw Tadnoll a Winfrith – lawntiau o'r rhedynen ddyfrol brin, pelenlys gronynnog (Pillwort) *Pilularia globulifera*, yn gorchuddio pyllau bas a grëwyd lai na 10 mlynedd yn ôl ar laswelltir wedi ei wella



1. Y Weledigaeth ar gyfer Pobl, Pyllau a Dŵr

Mae'r prosiect Pobl, Pyllau a Dŵr yn bartneriaeth genedlaethol yn gweithio gyda gwirfoddolwyr ledled Cymru a Lloegr i fonitro, rheoli a gwarchod bywyd gwylt dŵr croyw.

Mae dyfroedd croyw a'r rhywogaethau maent yn eu cynnal ymhlith y cynefinoedd sydd wedi eu bygwth fwyaf yn ein byd cyfoes. Mae dŵr glân anllygredig yn brin ar draws Cymru a Lloegr ac y mae graddau difodiant bioamrywiaeth dŵr croyw yn arwyddocaol uwch na chynefinoedd daearol a morol.

Ar waethaf hyn mae monitro ffurfiol dyfroedd croyw yn llai na 1% o'r adnodd cynefin ac wedi ei ganolbwyntio'n bennaf ar y prif afonydd a'r llynnoedd mwyaf. Ychydig iawn a wyddom am gyflwr a statws ein pyllau, blaenddwyr nentydd, ffosydd a llynnoedd llai.

Mae monitro rhywogaethau dŵr croyw hefyd yn fratiog iawn. Yn hanesyddol mae'r ymdrechion wedi canolbwyntio ar ddim ond ychydig o rywogaethau egsgotig, neu wedi dibynnu ar recordio ad hoc sy'n ei wneud yn anodd i ymgymryd â dadansoddiad grymus i nodi newid a'r rhesymau dros y newid.

Mae bylchau fel y rhain yn ein gwybodaeth yn creu rhwystrau difrifol i amddiffyn rhywogaethau. Fel rhan o Pobl, Pyllau a Dŵr roeddem yn anelu i ddod â byddin o bencampwyr dŵr croyw at ei gilydd a fyddai'n helpu i ddarparu tystiolaeth.

Gwyddom fod dros 90% o gyrff dŵr y gwastadedd wedi'i ddiraddio ond mae 10% uchaf o'r pyllau yn cynnal tua 70% o holl rywogaethau dŵr croyw, gan gynnwys rhywogaethau prin a rhai wedi eu gwarchod na'r afonydd, llynnoedd a ffosydd. Felly mae'n hanfodol bwysig ein bod yn gwarchod ein cynefinoedd gorau a'n rhywogaethau dŵr croyw i sicrhau eu bod yn aros mewn cyflwr da.



Mae'r goreuon o'r pyllau dŵr gorau yn ffurfio rhan o rwydwaith safleoedd pyllau dŵr o'r radd uchaf. Gall cefnogi rheolwyr tir a chymunedau lleol fod â rôl hanfodol wrth helpu i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y safleoedd hyn a defnyddio atebion rheoli ymarferol yn seiliedig ar arferion gorau fel y gall y rhywogaethau maent yn eu cynnal, lwyddo.


Amcanion y prosiect oedd:

- Amcan 1.** Casglu tystiolaeth am gynefinoedd a rhywogaethau dŵr croyw
- Amcan 2.** Gwarchod y cynefinoedd dŵr croyw gorau
- Amcan 3.** Hyrwyddo bioamrywiaeth dŵr croyw

Ethos Pobl, Pyllau a Dŵr yw mai'r ffordd orau i warchod cynefinoedd dŵr croyw yw drwy gynyddu mwynhad, gwybodaeth a phrofiad pobl ohonynt.

Yn y prosiect Pobl, Pyllau a Dŵr roeddem eisiau ysbrydoli pobl i gysylltu, deall a bod yn rhan o warchod eu hamgylchedd dŵr croyw.

Byddai gwirfoddolwyr yn dod yn rhan uniongyrchol yn y gweithredoedd a fyddai'n gwneud gwahaniaeth cenedlaethol arwyddocaol i warchod etifeddiaeth dŵr croyw Prydain yn y tymor hir.



Defnyddiodd Pobl, Pyllau a Dŵr rym dros **15,000 o wirfoddolwyr** i gasglu data ar iechyd cynefinoedd dŵr croyw Cymru a Lloegr

Mae tîm Pobl, Pyllau a Dŵr wedi casglu dros **16,200 o gofnodion** o dros **10,000 o safleoedd**

Mae'r prosiect wedi gweithio gyda dros **600 o sefydliadau statudol ac anstatudol** a grwpiau cymunedol, ac wedi ymgymryd â rheolaeth ymarferol ar 72 o safleoedd pyllau dŵr gorau yn y Deyrnas Unedig

Cyflawnwyd y prosiect drwy dair elfen o'r prosiect yn gorgyffwrdd:

PondNet: Rhwydwaith arolwg gwirfoddolwyr i gasglu data sy'n ystadegol gadarn i adnabod y tueddiadau mewn ansawdd pyllau dŵr a rhywogaethau'r pyllau, gan gynnwys planhigion ac anifeiliaid anghyffredin. Mae methodoleg yr arolwg wedi eu safoni ac yn cynnwys metrigau amgylcheddol; bydd y rhain yn rhoi gwybodaeth fydd yn help i egluro'r rhesymau dros y newidiadau mewn ansawdd biolegol ac a fydd yn y pendraw yn llywio'r polisi dŵr croyw.

Dŵr Glân i Fwyd Gwylt: Arolwg gwyddonol dinesydd i godi ymwybyddiaeth o ystod gwirioneddol llygredd maethol, ac i adnabod cynefinoedd dŵr glân yng Nghymru a Lloegr, gyda'r amcan yn y pendraw i helpu gwarchod bioamrywiaeth. Mae llygredd maethol yn anweledig mor aml nes nad yw'n ymddangos yn 'real' i bobl. Mae defnyddio pecynnau cyflym yn ei gwneud yn bosibl i bobl 'weld' llygredd yn rhwydd am y tro cyntaf.

Pyllau Blaenllaw: Rhwydwaith o rai o safleoedd pyllau dŵr pwysicaf yng Nghymru a Lloegr, y gwyddom eu bod yn cynnal poblogaethau o rywogaethau sydd dan fygythiad. Mae cymunedau lleol yn datblygu cynlluniau cynaliadwy i'r safleoedd hyn. Mae ysgolion a grwpiau lleol yn gweithio ar brosiectau gwyddonol dinesydd, sydd wedi'u teilwra ar gyfer pob safle. Darperir cyllid newydd i wneud y monitro, rheolaeth, creu pwll a helpu i adfer rhywogaethau.



2. PondNet

PondNet yw'r rhwydwaith arolwg gwirfoddol cenedlaethol cyntaf ar gyfer cynefinoedd pyllau, a phlanhigion ac anifeiliaid anghyffredin mewn pyllau yng Nghymru a Lloegr.

Dros y tair blynedd ddiwethaf rydym wedi adeiladu rhwydwaith monitro safleoedd sydd wedi'u dewis ar hap, gan sicrhau caniatâd y tirfeddiannwr, a recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr.

Ar lefel genedlaethol rydym wedi gweithio gyda grwpiau ac arbenigwyr rhywogaethau i gynhyrchu technegau arolwg statudol cadarn y gellir eu hailadrodd.

Ar lefel leol, mae cefnogaeth gan Ganolfannau Cofnodi Amgylcheddol, rhwydwaith o arbenigwyr lleol medrus a'n gwirfoddolwyr sydd â brwdfrydedd diddiwedd wedi gwneud yr arolwg yn llwyddiant.


Cyflwynodd gwirfoddolwyr **8,500 o gofnodion unigol** o dros **3,300 o byllau dŵr**

Mae PondNet wedi casglu data ystadegol arwyddocaol ar **15 o rywogaethau pyllau blaenllaw**

Rydym wedi cynnal dros **210 o ddigwyddiadau hyfforddi** dros **1,500 o wirfoddolwyr**

Mae'n **pecynnau arolwg a 'Fideos Sut i wneud' ar gael ar-lein**, yn cynnwys 32 o daflenni adnabod rhywogaethau a thafleuni arolwg

Mae data newydd ar gymunedau o blanhigion ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn wedi'n galluogi ni i **adrodd ar statws cynefinoedd pyllau** mewn safleoedd wedi eu gwarchod ac yn y cefn gwlad ehangach



Mae PondNet yn cynnwys sawl is-rwydwaith sy'n gorgyffwrdd:

Rhwydwaith Amffibiaid: cofnodi'r nifer o byllau ble mae amffibiaid drwy ddewis ar hap grid sgwâr 1km (gan gynnwys eDNA y fadfall ddŵr gribog).

Rhwydwaith pyllau o ansawdd da: arolygon planhigion ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn o byllau wedi eu dewis ar hap.

Planhigion ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn anghyffredin: monitro poblogaethau o blanhigion ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn anghyffredin mewn pyllau penodol gan ddefnyddio methodoleg safonedig.

Safleoedd â gwerth ychwanegol: safleoedd a ddewiswyd gan wirfoddolwyr sy'n cynnwys arolygon grifft PondNet llyffant (*Rana temporaria*) a'r llyffant dafadenog/broga (*Bufo bufo*) ac arolygon cymunedol ar gyfer gweision y neidr.




Arolygon ansawdd pyllau


Yn y 1990au cynnar fe wnaeth Ymddiriedolaeth Cynefinoedd Dŵr Croyw yr arolwg cyntaf o byllau o ansawdd uchel yn y Deyrnas Unedig. Datgelodd y canlyniadau fod y pyllau yn gynefinoedd eithriadol o gyfoethog a phwysig, yn cynnal mwy o rywogaethau a mwy o rywogaethau prin na'n afonydd gorau. Yn 2015-16 darparodd prosiect Pobl, Pyllau a Dŵr gyfle i ailymweld â rhai o'r pyllau rhyfeddol yma a gweld os oeddent wedi newid.

Roedd yn siom darganfod fod dwy ran o dair o'r pyllau o ansawdd uchel yn Lloegr wedi colli nifer arwyddocaol o rywogaethau planhigion a nifer anghymesur o rywogaethau anghyffredin dros y 25 mlynedd rhwng arolygon. Roedd y pyllau o ansawdd uchel yng Nghymru wedi cadw mwy o'u rywogaethau ond recordiwyd colledion tebyg yn nifer y planhigion anghyffredin.

Datgelodd arolygon PondNet o byllau ehangach yng nghefn gwlad, y tu allan i warchodfeydd natur, ddarlun pryderus. Roedd cyfartaledd cyfanswm nifer o blanhigion y gwlypdir a recordiwyd ym mhob pwll yn llai na hanner y cyfanswm o safleoedd pyllau o ansawdd uchel. Yn yr arolwg, canfuwyd bod llai nag 1% o byllau lletach cefn gwlad yn cefnogi rywogaethau anghyffredin o blanhigion o'u cymharu â 78% o safleoedd pyllau o ansawdd uchel.



Dirywiad yng nghyfoeth rhywogaethau mewn pyllau o safon uchel



Roedd cyflwr gwael pyllau cefn gwlad ehangach yn cymharu â safleoedd uchel eu hansawdd o ran cyfoeth eu rhywogaethau a'r cyfartaledd o byllau oedd yn cynnal rhywogaethau anghyffredin

Rhwydwaith cenedlaethol i fonitro'r fadfall ddŵr gribog



© PIET SPAANS (CC BY-SA 2.5)

Un o lwyddiannau mawr prosiect PondNet oedd sefydlu rhwydwaith genedlaethol i fonitro'r fadfall ddŵr gribog. Mae'r rhwydwaith yn gofyn am arolwg blynyddol o dros 130 o sgwariau grid 1 km, yn cwmpasu 380 pwll a thim o dros 450 o wirfoddolwyr.

Roedd hwn yn darged uchelgeisiol o ystyried graddfa gofod ac amser yr arolwg. Roedd hefyd yn arolwg traddodiadol lle roedd angen o leiaf bedwar ymweliad nosweithiol i sefydlu absenoldeb rhywogaeth. Ond, diolch i arian ychwanegol gan Natural England, Defra ac eraill, roeddem yn gallu prynu eDNA (DNA amgylcheddol) i brofi am bresenoldeb y fadfall ddŵr gribog yn ein holl byllau.

Manteision y dechneg eDNA yw pa mor rhwydd a chywir y mae gwirfoddolwyr yn gallu arolygu nifer fawr o safleoedd gyda dim ond un ymweliad ac ychydig iawn o hyfforddiant. Byddai'n annhebyg y byddem wedi casglu cymaint o ddata heb y dechneg gyffrous hon.

Mae eDNA wedi rhoi llawer o wybodaeth newydd i ni: Rydym yn amcangyfrif fod rhwng 18-32% o sgwariau grid 1 km yn Lloegr wedi eu meddiannu gan y fadfall ddŵr gribog ac yn y tymor byr nid yw hyn yn newid.


Mae tua 13% o byllau wedi eu meddiannu gan y fadfall ddŵr gribog o fewn eu cyrhaeddiad yn Lloegr ac mae data ar ansawdd cynefin a gasglwyd ar yr un pryd wedi dangos cydberthynas arwyddocaol rhwng ansawdd pwll a defnydd gan y fadfall ddŵr gribog. Nid oedd pyllau o ansawdd gwael yn debyg o gael eu meddiannu gan fadfallod dŵr cribog.

Roedd cyfradd defnydd o'r pwll yn ôl sgwâr grid 1 km yn is na'r disgwyl. Hyd yn oed mewn sgwariau ble roedd llawer o byllau, canfuwyd nad oedd y fadfall ddŵr gribog ddim ond yn meddiannu cyfran fach o'r cynefin oedd ar gael. Yn y mwyafrif o'r sgwariau (41%), cofnodwyd madfallod mewn dim ond rhwng 26-50% o'r pyllau.

Yn gyffredinol nid oedd newidiadau arwyddocaol tymor byr yn y sgwâr meddiant, meddiant pwll neu yn nifer y pyllau a feddiannwyd yn ôl y sgwâr, ond dymunwn gasglu rhagor o ddata dros gyfnod hwy o amser, yn ddefnyddol am 2-3 mlynedd arall.



Defnyddiodd gwirfoddolwyr dechneg eDNA newydd i ganfod presenoldeb y fadfall ddŵr gribog



Amcangyfrif nifer y sgwariau grid 1 km a ddefnyddir gan fadfallod dŵr cribog yn Lloegr ($\pm$ 7% lwfans gwallau). Nid oedd y newid dros y tair blynedd olaf yn arwyddocaol.

Arolygon o rywogaethau anghyffredin



Gele feddyginiaethol yw un o'r rhywogaethau mwyaf rhyfeddol rydym wedi ei harolygu fel rhan o brosiect PondNet. Yn y canol oesoedd roedd eu defnydd i wella popeth wedi arwain at ddosbarthiad eang o amgylch y Deyrnas Unedig.



Mewn hanes mwy diweddar mae eu niferoedd wedi dirywio i fod yn llond dwrn mewn safleoedd y gwyddom amdanynt a mynegwyd pryder am eu statws. Cafwyd mymryn gwell darlun o arolygon yn y 1990au hwyr gan fod nifer fawr o safleoedd newydd wedi eu canfod yn Cumbria a Chaint. Ond tra bod safleoedd Caint wedi eu monitro'n dda dros yr 20 mlynedd diwethaf, ychydig iawn, os o gwbl, o arolygon a fu ar safleoedd eraill yng Nghymru a Lloegr.

Un o'r problemau mawr gydag arolygon gelod yw eu syrthni mewn tywydd oer a'u hanfodlonrwydd i symud tuag at wirfoddolwyr sy'n dynwared ysglyfaeth os ydynt eisoes wedi cael pryd da i'w fwyta. Tarodd ein gwirfoddolwyr PondNet yng Nghymru ar syniad newydd o ddefnyddio byrnau gwair fel cynefin magu posibl ac yn wir ar y gwiriad cyntaf cawsant eu gwobrwyo gyda llond llaw o gelod newydd eu deor!

Datgelodd yr arolygon bwysigrwydd llystyfiant ifanc a gwair cysylltiedig, sy'n darparu is-haen naturiol ble mae'r gelod yn gallu gosod eu cocŵn. Mewn rhai safleoedd mae rheolwyr rhy frwdfrydig wedi symud y cynefin yma i greu 'dŵr agored' ac yn sicr mae hyn wedi cyfrannu at eu dirywiad.

Gele meddyginiaethol
Hirudo medicinalis



© CHLOE RICE



Mae cegiden bibellaidd yn blanhigyn gwlypdir prin a gysylltir gyda'r parth lleihad a dŵr bas y pyllau a'r ffosydd ar laswelltir gorlifdir a dolydd gwlyb sy'n isel eu maetholion.

Yn debyg i lawer o rywogaethau yn y math hwn o gynefin, bu colledion dramatig ers y 1950au, yn bennaf oherwydd draenio'r tir, diffyg pori gwarchodol, a mwy o faetholion. Mae'n dal i fod yn rhywogaeth cymharol eang, ond ni fu arolwg systematig i asesu ei statws ar byllau.

Fe wnaeth gwirfoddolwyr Pontnet a Chloe Rice, myfyriwr ymchwil ymroddgar, arolygu tua 70 pwll yn Lloegr gyda chofnod diweddar (ar ôl 1980) am y cegiden bibellaidd.

Roedd y canlyniadau'n ysgytwol - ni ellid canfod y cegiden bibellaidd yn 40% o'r pyllau oedd â chofnodion blaenorol. Dim ond 13% o'r safleoedd oedd â dros 2,000 o blanhigion unigol, tra 'roedd gan 35% lai na 100 o blanhigion, a dim ond un neu ddau oedd yn llawer o'r pyllau.

Gall planhigion fel y cegiden bibellaidd fynd a dod o safle fel rhan naturiol o boblogaeth ddynamig naturiol, a gall planhigion ail ymddangos ar rai safleoedd a gofnodwyd fel absennol yn yr arolwg hwn. Ond, mae darnio a phwysau cynyddol ar amgylchedd dŵr croyw yn arwain at ddyledion difodiant gydag ychydig iawn o obaith y bydd y rhywogaeth yn cael ei hadfer unwaith wedi ei cholli.

Cegiden bibellaidd
Oenanthe fistulosa



3. Dŵr Glân i Fwyd Gwylt

Mae Dŵr Glân i Fwyd Gwylt yn brosiect ledled y wlad i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd aruthrol dŵr glân anllygreddig i fywyd gwylt dŵr croyw.

Yn yr arolwg cenedlaethol cyntaf o'i fath, fe wnaethom recriwtio gwyddonwyr o ddinasyddion i gasglu data am lygredd maetholion o bob math o ddŵr croyw, gan gynnwys pyllau, llynnoedd, afonydd, nentydd a ffosydd, ac mae pob un ohonynt yn bwysig i fywyd gwylt dŵr croyw.

Mae planhigion ac anifeiliaid dŵr croyw angen maetholion i dyfu; maent wedi esblygu dros filiynau o flynyddoedd mewn byd lle mae gan ddŵr lefelau maetholion isel iawn yn naturiol. Pan fyddwn yn ychwanegu mwy, hyd yn oed y swm lleiaf, mae'n achosi newidiadau dwys i'r amgylchedd dŵr croyw.

Mae gormod o faetholion yn achosi algâu, ffwng, bacteria a rhai planhigion dŵr dyfu'n gyflym. Mae hyn yn mygu rhai rhywogaethau sy'n tyfu'n arafach ac sy'n fwy eiddil, ac yn y diwedd yn eu lladd, sy'n cael effaith ar yr anifeiliaid sy'n dibynnu arnynt.

Wrth i lefelau maetholion gynyddu, collir rhywogaethau sensitif ac yn araf bach mae'r cynefin yn troi'n dlotach o ran bywyd gwylt. Bydd gan lawer o gynefinoedd llygreddig beth bywyd gwylt, ond ni fydd ganddynt yr amrywiaeth cyfoethog na rhywogaethau sensitif sy'n dibynnu ar ddŵr glân.

Yn iseldir Cymru a Lloegr, mae cymaint o faetholion yn draenio o dir fferm ac ardaloedd dinesig nes ei bod yn anodd dod o hyd i afonydd neu nentydd mawr sy'n rhydd o'r llygryddion hyn, ac mae'n broblem i'n iechyd ni ac i iechyd yr amgylchedd.

Mae'r safleoedd glanach yn debygol o fod yn y dŵr croyw llai o faint; y pyllau a'r llynnoedd bach, nentydd a ffosydd bach, wedi'u lleoli mewn mannau sydd wedi'u hynysu o ffynonellau llygredd.

Cyn Dŵr Glân ar gyfer Bywyd Gwylt, nid oedd gennym lawer o wybodaeth am leoliad y safleoedd hyn oedd heb eu llygru. Er bod asiantaethau'r llywodraeth yn monitro'r nentydd a'r afonydd mawr ac ychydig o lynnoedd mawr; nid oedd llygredd maetholion wedi'i fesur yn y rhan fwyaf o'r cynefinoedd llai.

Tan yn ddiweddar, roedd sawl her i nodi dyfroedd croyw heb lygredd ar raddfa tirwedd. Ni allwch weld maetholion mewn dŵr; efallai y bydd yn edrych yn berffaith glir ond gall fod wedi ei lygru, ac yn y gorffennol, yr unig ffordd i ddarganfod oedd cynnal profion labordy drud. Roedd y dull amgen yn defnyddio mynegeion biotig fel dangosyddion ond roedd y rhain yn gofyn am syrfewyr planhigion ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn medrus iawn.


Defnyddiodd yr arolwg Dŵr Glân ar gyfer Bywyd Gwylt 'becynnau cyflym' arloesol newydd i asesu lefel llygredd nitrogen (fel nitrad) a ffosfforws (fel ffosffad); dau faetholyn sy'n gallu peryglu bywyd gwylt.

Nid oedd y pecynnau angen unrhyw brofiad blaenorol a chydâ'r adnoddau sydd ar gael ar wefan Pobl, Pyllau a Dŵr (People, Ponds and Water), roedd yn golygu y gallai unrhyw un helpu i gau'r bwllch gwybodaeth.

Dudalen gyferbyn: Mae Dŵr Glân ar gyfer Bywyd Gwylt wedi bod yn elfen hynod boblogaidd o'r prosiect Pobl, Pyllau a Dŵr.

Anfonwyd pecynnau prawf ansawdd dŵr ymhell ac agos, i wirfoddolwyr o bob oed oedd â diddordeb. Rydym ni wedi eu defnyddio ar safleoedd PondNet a Phyllau Blaenllaw, gyda grwpiau bywyd gwylt cymunedol, rheolwyr gwarchodfeydd, ysgolion a cholegau, gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant, ac unigolion lleol sydd wedi mynd â'u cŵn gyda nhw i brofi cynefinoedd dŵr croyw yn eu cymdogaeth eu hunain.





Canlyniadau ansawdd dŵr a gasglwyd gan wirfoddolwyr a staff fel rhan o Ddŵr Glân ar gyfer Bywyd Gwylt a gyllidir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, Thames Water for Wildlife a gyllidir gan Thames Water, y rhaglen Freshwater Watch Earthwatch (Llundain) a Phartneriaeth Dalgylch y Fforest Newydd (Hampshire).

Dosbarthwyd dros 30,000 o becynnau ansawdd dŵr ledled Cymru a Lloegr drwy'r arolwg Dŵr Glân ar gyfer Bywyd Gwylt.

Rydym yn parhau i dderbyn rhagor o ganlyniadau bob dydd trwy borth data ar-lein WaterNet. Hyd yn hyn mae ychydig dan 10,000 o gofnodion wedi'u cyflwyno o oddeutu 7,000 o gynefinoedd dŵr croyw, gan gynnwys pyllau, llynnoedd, afonydd, nentydd a ffosydd.

Y newyddion drwg yw maint llygredd maetholion. Canfuom lefelau uchel o nitradau a ffosffadau ym mhob math o gynefinoedd dŵr croyw.


Y newyddion da yw bod pobl yn canfod dŵr glân heb ei lygru ym mhob un o'r tirweddau y buont yn eu profi, ac roedd rhai tirweddau bron yn hollol rhydd o lygredd maetholion.

A mwy o newyddion da yw bod y canlyniadau'n datgelu am y tro cyntaf bwysigrwydd cenedlaethol cyrff dyfroedd bach yn y rhwydwaith dŵr glân.

Roedd mwyafrif y dŵr glân wedi'i ganoli mewn pyllau - roedd dŵr glân yn 66% o'r pyllau a brofwyd; er nad oedd llawer o ddyfroedd rhedegog yn rhydd o lygredd maetholion - dim ond 27% o afonydd a nentydd a brofwyd oedd â dŵr glân.

Roedd dŵr glân gan
66%
o'r pyllau a brofwyd

Cyfran y pyllau, afonydd a nentydd â dŵr glân yng Nghymru a Lloegr




Mae gan 'ddŵr glân' gyfansoddiad cemegol a biolegol a fyddai'n arferol ar gyfer ardal yn absenoldeb pwysedd dynol sylweddol. Fe'i gelwir weithiau'n 'gefndir naturiol', 'ansawdd dŵr a effeithiwyd leiaf' neu 'y cyflwr cyfeirio'.

O ran deddfwriaeth, mae dŵr wedi'i gategoreiddio fel 'Uchel' ar ddosbarthiad pum pwynt ansawdd dŵr y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr, sef Uchel, Da, Cymedrol, Gwael neu Drwg.

Yn ein dadansoddiad o ddata Pobl, Pyllau a Dŵr, mae 'dŵr glân' yn cyfeirio at gyrff dŵr gyda chrynodiadau Cyfanswm Nitrogen islaw 1mg/L a chrynodiad Cyfanswm Ffosfforws yn is na 50µg/L. Mae hyn fwy neu lai yn hafal â statws 'Uchel' y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr (neu'r hyn sy'n cyfateb iddo ar gyfer pyllau).

Parc Cenedlaethol y Fforest Newydd




Yn wahanol i weddill iseldiroedd Lloegr a Chymru, mae Parc Cenedlaethol y Fforest Newydd yn dirwedd sy'n cael ei dominyddu gan gynefinoedd dŵr croyw sydd heb ei llygru. Ni ddangosodd dros dri chwarter y safleoedd (76%) unrhyw dystiolaeth o lygredd maetholion.


Cynhyrchodd y 'goedwig agored', yr ardal o gynefinoedd lled-naturiol a thir heb ei drin yng nghanol y Fforest 72% o'r samplau dŵr glân, tra roedd y samplau llygredig yn dominyddu'r ardaloedd trefol a'r tir oedd wedi'i ffermio'n ddwys ar ymyl y Fforest.

Dyma'r tro cyntaf i unrhyw wybodaeth am ansawdd dŵr yn y Fforest Newydd gael ei gasglu ar raddfa tirwedd ac erbyn hyn mae'n hawdd gweld pam fod y dirwedd unigryw hon yn cefnogi rhywfaint o'r bywyd gwyllt cyfoethocaf a mwyaf prin yn y DU ac Ewrop.

Cyfran o ddŵr glân a chynefinoedd llygredig yn y Fforest Newydd



Dalgylch yr Ock




Yn nodweddiadol o'r tirweddau trefol a gwledig a samplwyd gennym yng Nghymru a Lloegr, roedd cynefinoedd dŵr croyw Dalgylch yr Ock yn dioddef o lygredd nitrada a ffosffad - roedd gan 13% rywfaint o lygredd a 52% yn llygredig iawn.

Roedd gan y dŵr croyw, glân (37%) ddosbarthiad anghyson, ac roedd wedi'i leoli mewn cynefinoedd lled-naturiol fel coetir, corsydd calchog a dolydd.

Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos pwysigrwydd pyllau a dyfroedd rhedegog llai i ddarparu cynefinoedd dŵr glân mewn tirweddau sydd fel arall yn llygredig - roedd 56% o gynefinoedd dŵr glân yn byllau.

Cyfran o ddyfroedd glân a chynefinoedd llygredig yn Nalgylch yr Ock a chyfran y cynefinoedd y canfuwyd dŵr glân ynddynt



4. Pyllau Blaenllaw

Pyllau Blaenllaw yw'r safleoedd pyllau gorau yng Nghymru a Lloegr. Nodwyd y rhain am eu bod yn cefnogi poblogaethau rhai o rywogaethau prinnaf y DU ac am eu bod yn cynrychioli rhai o'r cynefinoedd pyllau mwyaf amrywiol, sydd â lleiaf o effaith arnynt sydd ar ôl yn y wlad.

Mae PondNet a Dŵr Glân ar gyfer Bywyd Gwyllt wedi darparu gwybodaeth bwysig ar statws presennol dŵr croyw yng Nghymru a Lloegr; ac mae'n amlwg bod llawer o gynefinoedd a rhywogaethau yn gynyddol mewn trafferth.

Er gwaethaf yr heriau hyn, rydym yn amcangyfrif bod tua 20% o'r 400,000 neu ragor o byllau yn y DU, yn dal i gyrraedd statws Pwll Blaenoriaeth gan gynnwys:

- Pyllau sy'n cynnal rhywogaethau o bwysigrwydd cadwraeth uchel
- Pyllau gyda phoblogaethau neu niferoedd eithriadol o rywogaethau allweddol
- Pyllau o ansawdd ecolegol uchel
- Mathau o byllau pwysig, e.e. pyllau ym mhantiau'r twyni tywod a phyllau pingo

Mae Pyllau Blaenllaw yn is-set o'r Pyllau Blaenoriaeth gorau. Maent yn cefnogi un neu ragor o blanhigion ac anifeiliaid y pyllau sy'n brin iawn, cyfoeth o rywogaethau, neu fathau o byllau sy'n bwysig yn rhyngwladol.

Rheswm pwysig dros roi statws Blaenllaw i bwl yw creu ffocws ar gyfer diogelu a monitro, ac i helpu i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y safle ar lefel leol a rhanbarthol. Dylai pob safle Pyllau Blaenllaw:

- Gael ei fonitro'n briodol
- Bod â chynllun rheolaeth ar waith sy'n ymwneud yn benodol â'r pyllau a'r rhywogaethau maent yn eu cynnal
- Penodi "gwarchodwr" lleol a fydd yn cynnal gwaith monitro lefel uchel a, lle bo'n briodol, cysylltu â'r tirfeddiannwr a darparu cyswllt â chynghorwyr arbenigol

Nododd y prosiect Pyllau Blaenllaw 70 o safleoedd Pyllau Blaenllaw sydd angen cymorth ar unwaith, tua hanner yr holl Byllau Blaenllaw sydd wedi'u nodi yng Nghymru a Lloegr.

Yn ystod y tair blynedd diwethaf o brosiect Pobl, Pyllau a Dŵr rydym wedi:

Gweithio gyda dros **600 o wirfoddolwyr gweithgar** ar safleoedd Pyllau Blaenllaw


Cynnal dros **90 o sesiynau hyfforddi** gydag arbenigwyr rhywogaethau i wella sgiliau gwirfoddolwyr y Grŵp Blaenllaw

Cynhaliwyd 50+ o ddigwyddiadau pyllau, o brofion ansawdd dŵr, i sgysiau gyda'r nos a theithiau cerdded yn ystod y dydd - gan gyrraedd 1,300 o bobl eraill yn y gymuned ehangach o gwmpas y safleoedd Pyllau Blaenllaw

Ymgymryd â rheolaeth ymarferol, gan gynnwys creu pyllau a gwaith adfer rhywogaethau ar ein holl safleoedd Pyllau Blaenllaw



Rhwydwaith y Pyllau Blaenllaw: 72 o'r safleoedd pyllau pwysicaf yng Nghymru a Lloegr





Safle Pwll Blaenllaw Cock Marsh



Mae safle pwll blaenllaw Cock Marsh yn warchodfa fach gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar safle gorlifdir yr Afon Tafwys. Dywedir mai hwn oedd un o dri safle yn unig, ble y gellid dod o hyd i'r planhigyn eithriadol o brin ysnoden Fair lwytygoch - ond doedd neb yn gwybod a oedd y planhigyn yn dal i fod yno.

Yn 2016 fe wnaeth Peter Case, ein swyddog prosiect rhanbarthol, weithio gyda rheolwyr y safle, gwirfoddolwyr a phobl leol, i ddarparu hyfforddiant mewn adnabod planhigion, ecoleg a rheolaeth ar gyfer yr ysnoden Fair lwytygoch.

Roedd yr hyn a ddarganfuwyd yn rhyfeddol: cofnodwyd dros 10,000 o blanhigion yr ysnoden Fair lwytygoch, sy'n golygu bod gan y safle'r boblogaeth fwyaf yn y DU. Fe wnaethom hefyd ddysgu gwersi newydd am ecoleg y planhigyn - roedd coed cyfagos yn hanfodol i'r planhigion oroesi: roedd eu cysgod yn annog gwartheg i loetran ar ymylon y pwll gan greu tir mwdlyd noeth - sy'n berffaith i'r ysnoden Fair lwytygoch. Newidiodd yr wybodaeth newydd hon y ffordd y caiff y safle ei rheoli yn y dyfodol.



Ysnoden Fair lwytygoch
Cyperus fuscus

Pyllau Blaenllaw Inglestone Common



Mae Inglestone Common yn un o ddim ond dau safle yn y DU i'r llafnlys tafod y neidr sydd mewn perygl. Mae'r planhigyn hwn yn ffynnu ar ymylon pyllau dros dro ble mae anifeiliaid yn troedio. Dros amser, mae peidio â phori'r comin wedi arwain at amodau anffafriol ac yn y blynyddoedd diwethaf dim ond dynnoid o blanhigion sydd wedi eu cofnodi yno.

Datblygodd y Grŵp Blaenllaw, sy'n cynnwys arbenigwyr cenedlaethol, sefydliadau arweiniol a rheolwyr y safle, Cyngor De Swydd Gaerloyw, gynllun ar gyfer y safle, i ailgyflwyno lefelau priodol o bori ar gyfer llafnlys tafod y neidr a chael gwared â phrysgwydd trwchus a oedd yn atal egino.

Roedd y prosiect Pyllau Blaenllaw gyda chyllid gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri a Valpak, yn gallu cyllido gwaith gan Fanc Hadau'r Mileniwm yn Kew i dyfu hadau a gasglwyd yn hanesyddol o Inglestone. Yn 2016, cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau i blannu'r eginblanhigion ifanc yn y cynefin sy'n cael ei reoli o'r newydd. Mae pob planhigyn yn gallu cynhyrchu dros 820 o hadau mewn blwyddyn, gyda'r planhigion mwyaf yn gallu cynhyrchu 3080 o hadau.

Cyn belled â'n bod yn parhau i gynnal lefelau pori ar y safle, dylai'r boblogaeth gael ei hadfer i'r gogoniant a fu mewn dim o dro!

Llafnlys tafod y neidr
*Spearwort; Ranunculus
ophioglossifolius*



© RICHARD LANSDOWN



Pyllau Blaenllaw Inholms Clay Pit



Mae safle Pyllau Blaenllaw Clay Inholms yn hen safle echdynnu clai, bellach yn warchodfa natur leol a reolir gan Ymddiriedolaeth Byd Natur Surrey. Mae'r safle wedi datblygu i fod yn fosaig o laswelltir, prysgwydd a choetir hynafol sy'n gyfoethog mewn rhywogaethau. Er mwyn ychwanegu at yr amrywiaeth, crëwyd saith pwll ar y safle fel rhan o Brosiect Miliwn o Byllau gan Ymddiriedolaeth Cynefinoedd Dŵr Croyw (Cadwraeth Pyllau yr adeg honno). Yn 2013, roedd botanegwyr lleol yn ceisio cyflwyno sêr ffrwythog i'r ddau bwl diweddaraf ar y warchodfa. Mae'r sêr ffrwythog yn blanhigyn sydd dan fygythiad yn fyd-eang ac heb y gwaith hwn roedd ar fin diflannu o'r gwyllt yn y DU.

Mae cannoedd o blanhigion sêr ffrwythog wedi ymddangos yn y pyllau bob blwyddyn ers hynny. Mewn safleoedd eraill lle gwnaed cyflwyniadau yn y gorffennol, gostyngodd nifer y planhigion ac yna diflannu. Felly, efallai mai dyma'r rhaglen gyflwyno lwyddiannus gyntaf i'r sêr ffrwythog yn y wlad hon.

Rydym wedi gweithio gyda'r Grŵp Pyllau Blaenllaw i safoni cofnodi a dogfennu cyflwyno sêr ffrwythog a rheoli'r safle wedyn, sy'n wybodaeth amhrisiadwy ar gyfer cadwraeth y rhywogaeth yn genedlaethol. Rydym hefyd wedi darparu arian ar gyfer creu pyllau a ffensys newydd i gadw'r pyllau yn rhydd rhag pwysau hamdden yn y safle poblogaidd hwn.

Llyriad y dŵr sêr ffrwythog *Damasonium alisma*

Safle Pwll Blaenllaw Strensall Common



Mae Strensall Common, Swydd Efrog, yn un o ddim ond dwy ardal o rostir agored eang yn y Vale of York. Fe'i nodwyd fel safle Pwll Blaenllaw oherwydd ei bwysigrwydd eithriadol ar gyfer bywyd gwyllt dŵr croyw prin a'r niferoedd o weision y neidr a'r amffibiaid sydd wedi eu cofnodi ar y safle.

Gorchuddir y pyllau bas, y pyllau a'r llynnoedd ar draws y rhostir gan y rhedyn dyfrol prin, pelenllys gronnynog ac maent hefyd yn gartref i filoedd o falwod y llaid - sy'n gwneud hwn y safle mwyaf a'r mwyaf eang i'r rhywogaethau hyn yn y rhanbarth. Mae un o'r pyllau hynaf ar y comin, Kidney Pond, hefyd yn cynnal nifer o rywogaethau sydd yn Brin yn Genedlaethol, gan gynnwys cegiden bibellaidd a serenllys llwydlas.

Fe wnaeth Ymddiriedolaeth Cynefinoedd Dŵr Croyw ymuno â Changen Swydd Efrog o Butterfly Conservation i recriwtio cymuned newydd o wirfoddolwyr Pyllau Blaenllaw i fynd i'r afael â'r prysgwydd oedd wedi tyfu'n raddol o gwmpas llawer o'r pyllau. Gan ddefnyddio cylllell docio hirgoes a llifiau bwa a brynwyd ar gyfer y prosiect, fe wnaeth dwsinau o wirfoddolwyr sicrhau bod y pyllau a'r rhywogaethau maent yn eu cynnal yn cael dyfodol disglair ac iach.

Pelenllys gronnynog *Pilularia globulifera*





© DICK EASTWOOD

Detholiad o'r grwpiau cymunedol a wnaeth y prosiect Pyllau Blaenllaw yn llwyddiant. O'r chwith uchaf: The Begwns, Blackpool Pond Trail, Brown Moss, Sound Common a South Weirs, y Fforest Newydd.



5. Adeiladu teulu'r Pyllau Blaenllaw

Mae'r prosiect Pyllau Blaenllaw yn dangos y grym sydd gan gymunedau i godi ymwybyddiaeth a chymryd camau ymarferol i amddiffyn cynefinoedd pyllau ac achub bywyd gwyllt dŵr croyw - ac erbyn hyn mae'r rhwydwaith yn tyfu:



Top Hill Low, Swydd Efrog

Ymwelodd Anne Heathcote, ein swyddog rhanbarthol yn y Gogledd, Top Hill Low fel lleoliad hyfforddi posibl PondNet. Roedd y safle'n wych, roedd yn fyw o weision neidr ac yn cynnal y planhigyn prin panasen y dŵr lydanddail.

Cyflwynodd Anne reolwr y safle i egwyddorion Pyllau Blaenllaw ac roedd yn falch iawn y gallem ddynodi Top Hill Low fel safle Pwll Blaenllaw.

Bydd y dynodiad yn codi proffil y pyllau a phwysigrwydd y llystyfiant ymylol cyfoethog sydd o'u cwmpas sy'n cefnogi cymaint o rywogaethau pwysig.

Aberffraw, Ynys Môn

Fe wnaeth Sam Bosanquet, sy'n arbenigwr cenedlaethol ar fwsoglau a llysiau'r afu, wirfoddoli ei amser i gynnig cyngor arbenigol yn ein safle Pwll Blaenllaw yng Nghwningar Niwbwrch. Soniodd ei fod yn gwybod am safle arall ar Ynys Môn a oedd yn cynnal o leiaf bedwar bryoffytau'r twyni sy'n brin; ac roedd y safle mewn angen dirfawr am rywfa'n o waith rheoli i'w hachub.

Aeth Hannah Shaw, ein swyddog rhanbarthol yng Nghymru, i edrych ar y safle gyda Sam a chytunodd y byddai'n cymhwyso'n hawdd ar gyfer statws Pwll Blaenllaw. O fewn ychydig wythnosau roedd tîm o wirfoddolwyr o Niwbwrch ar y safle yn helpu i gael gwared ar ddarnau bach o dywarchen â llaw, er mwyn creu'r tir moel sydd ei angen gan y bryoffytau bach, prin yma. Bydd y pantiau hyn yn mynd yn wlyb dros y gaeaf i greu pyllau dros dro bach yn y twyni a ddylai greu amodau delfrydol i'r bryoffytau egino.



6. Cyflwr Natur Pyllau

Mae Pobl, Pyllau a Dŵr wedi cyflawni llawer yn y dair blynedd gyntaf.

- Rydym wedi cynhyrchu gwybodaeth gyfoes am statws a newid yng nghynefinoedd pyllau a rhywogaethau blaenoriaeth, gan dreialu technegau newydd sydd wedi cychwyn cofnodi rhywogaethau i gynulleidfaoedd newydd. Mae hyn wedi datgelu rhai tueddiadau sy'n peri pryder sy'n nodi bod dirywiad yn digwydd mewn nifer o gynefinoedd pyllau a grwpiau rhywogaethau, hyd yn oed mewn safleoedd gwarchodedig.
- Rydym wedi cynhyrchu'r data cyntaf erioed ar faint o lygredd maeth ym mhob math o gyrff dŵr ledled Cymru a Lloegr. Mae llygredd maeth yn gyffredin, ond mae ychydig o dirweddau yn cadw dŵr glân a gellir dod o hyd i byllau dŵr glân hyd yn oed yn y tirweddau mwyaf llygredig.
- Rydym wedi gweithio gyda grwpiau cadwraeth, arbenigwyr cenedlaethol a lleol, a gwirfoddolwyr angerddol i ddiogelu a rheoli rhai o'r safleoedd pyllau pwysicaf yng Nghymru a Lloegr; gan gynnwys adfer rhywogaethau i safleoedd lle cawsant eu colli.
- Yn bwysicaf oll, rydym wedi codi proffil pwysigrwydd pyllau ar gyfer bywyd gwyllt dŵr croyw a rhoi strategaethau monitro a chadwraeth ar waith a fydd yn helpu i gynnal y safleoedd pyllau gorau i genedlaethau'r dyfodol.



Beth nesaf...

- **Bydd PondNet** yn parhau gydag arolygon blynyddol o lawer o'r rhywogaethau blaenoriaeth, gan gynnwys y fadfall ddŵr gribog, y gele meddyginiaethol a'r pelenllys gronynnog. Rydym hefyd yn ymestyn y rhwydwaith i wneud rhagor o arolygon cynefinoedd pyllau ar lefelau lleol a rhanbarthol.
- **Mae Dŵr Glân i Fwyd Gwyllt** wedi cyflwyno offeryn newydd gwerthfawr i fonitro dŵr croyw a bydd ein holl brosiectau yn y dyfodol, yn ogystal â phrosiectau llawer o'n sefydliadau partner, yn debygol o gynnwys elfen o asesiad llygredd maeth cyflym.
- **Mae'r Rhwydwaith Pyllau Blaenllaw** eisoes yn tyfu wrth i safleoedd newydd gael eu hychwanegu i'r rhwydwaith. Rydym hefyd wedi dechrau datblygu prosiectau a fydd yn ymestyn y gwaith ar y gyfres bresennol o safleoedd, gan gynnwys cynlluniau i ymestyn allan o'r tirweddau ansawdd uchel hyn i adeiladu Ardaloedd Dŵr Croyw Pwysig.

Byddwn yn cyhoeddi adroddiad manylach ar Gyflwr Natur Pyllau yn ystod y misoedd nesaf. Gellir llwytho i lawr adroddiadau unigol a data o wefan Pobl, Pyllau a Dŵr: <https://freshwaterhabitats.org.uk/projects/people-ponds-water..>

Ac yn olaf...



Diolch yn Fawr iawn!

I holl wirfoddolwyr Pobl, Pyllau a Dŵr.

Cysylltwch â ni

Bwriad Ymddiriedolaeth Cynefinoedd Dŵr Croyw yw diogelu bywyd gwyllt croyw i bawb ei fwynhau. Ein gweledigaeth yw bod yr holl blanhigion ac anifeiliaid croyw sydd dan fygythiad wedi eu hadfer a datblygu poblogaethau cynaliadwy. Mae gan y Deyrnas Unedig rwydwaith weithredol o gynefinoedd dŵr croyw: Rhwydwaith Dŵr Croyw, ac mae pobl yn gwerthfawrogi eu cynefinoedd dŵr croyw a'r bywyd gwyllt. Rydym yn cyflawni ein hamcanion cadwraeth drwy ein staff arbenigol a'u gwaith cadwraeth, gwaith cymunedol, gwaith ymchwil a pholisi.

Os dymunwch dderbyn diweddariadau rheolaidd gan Ymddiriedolaeth Cynefinoedd Dŵr Croyw (Freshwater Habitats Trust) neu eisiau gwybod am brosiectau a chyfleoedd gwirfoddoli yn y dyfodol, cysylltwch â ni.

Ebost: info@freshwaterhabitats.org.uk

Ffôn: 01865 595505

Cyfeiriad: Freshwater Habitats Trust, Bury Knowle House, North Place, Headington, Oxford, OX3 9HY

Gwe: www.freshwaterhabitats.org.uk

Ymddiriedolaeth Cynefinoedd Dŵr Croyw: 1107708

